Tachwedd *24, 2025, 18:00-20:00*

UNDEB MYFYRWYR ABERYSTWYTH

# Tachwedd 2025 Y SENEDD

# Agenda

**Croeso**

1. Croesawu ac Ymddiheuriadau.
2. Cymeradwyo Munudau'r Cyfarfod Diwethaf.
3. Unrhyw Fateriona Godir o'r Munudau.
4. Adroddiad Swyddog
5. Hen Bolisiau (Er Gwybodaeth)

**Syniadau**

Syniad Un: A ddylai Undeb Aber newid enw'r Swyddog Myfyrwyr Annibynnol i'r Swyddog AberOfalgar?

Syniad dwy: Proses Cymeradwyo ar gyfer Etholiad Llywydd UMCA

**Datblygu Polisi**

1. Deseb Gwasanaethau Golchdy am ddim I Breswylwyr Llawn Amser (Cymerwch eiliad i gyfarwyddo â'r syniad polisi gwreiddiol)

**Sylwadau Olaf y Cyfarfod**

1. Unrhyw Faterion Eraill.
2. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf.
3. Diwedd y Cyfarfod.

# Cofnodion

**Senedd**

**27/10/2025**

## Aelodau a fynychodd

Francesco Lanzi (Cadeirydd)

Millicent Hackett (SLlA)

Nanw Hampson (SLlA)

Ffion Johns (SLlA)

Esperanza Bizama (SLlA)

Tanaka Chikomo (SLlA)

Natasha Goodwin (SG)

Billy Smith (SG)

Harley Harrison (SG)

Kathleen Hinton Pritchard (SG)

Livvy Hagget (CYMDEITHASAU)

Spencer Tinklin (SC)

Mesh Tamilchelven (SG)

Mason Gee (SG)

Priyanka Singh (SG)

Laura Young (SG)

Melissa Eyre (PG)

Gwenno Roberts (UMCA)

Tomos Parry (UMCA)

Florence Rawlinson (CA)

Ula Archer (CA)

James Shepard (CHWARAEON)

Matthias Pavlides (CHWARAEON)

Janos Vranek (CHWARAEON)

Max Rycroft (CHWARAEON)

Saul Ashton (CHWARAEON)

James Ashfort(CYMDEITHASAU)

Kate Crowthur (CYMDEITHASAU)

Alex Marsh (CYMDEITHASAU)

## Hefyd yn bresennol: (Myfyrwyr sy’n arsylwi)

Ash Perfitt

Francesca Betz

## Yn absennol:

Varsha Raj (SC) ni chafwyd ymddiheuriadau

Blue Bell (SG) ni chafwyd ymddiheuriadau

Elliw Mair (SG) Cafwyd ymddiheuriadau

Duraab Arshad (SG) Cafwyd ymddiheuriadau

Fresno Rhys Thomas (SG) - ni chafwyd ymddiheuriadau

| Agenda | Eitem | Cofnodion | Crynodeb o'r Bleidlais | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | O blaid | Yn erbyn | Ymwrthod |
| **Sylwadau Croesawu ac Agoriadol** | Croesawodd Cadeirydd yr Undeb bawb a fynychodd y cyfarfod | Mae Cadeirydd yr Undeb yn rhoi croeso i'r cyfarfod i bawb. Amser cychwyn: 6:10<br>Rhannodd y Cadeirydd y nifer sy'n mynychu a sut mae aelodau wedi pleidleisio. Gellir gweld crynodeb o hyn ar wefan Undeb Aber. | | | |
| | Ymddiheuriadau am Absenoldeb | Anfonodd Elliw a Duraab eu hymddiheuriadau i'r cyfarfod. | | | |
| | Cofnodion y cyfarfod cynt a materion sy'n codi | Dim cofnodion na materion sy'n codi i'w cymeradwyo | | | |
| | Cyflwyniadau | Cyflwynodd pob un ei hun oedd yn yr ystafell. | | | |
| **Ethol is-gadeirydd** | Holwyd pwy hoffai sefyll a phleidleisio. | Holodd y Cadeirydd ynghylch pwy hoffai sefyll.<br><br>Kait (CYMDEITHASAU) - digon teg a dylai fod gan bawb lais.<br>Florence (AP) - byddaf yn gwrando ar farn bawb a byddaf yma bob tro<br>Tasah (SG) - byddaf yn gwrando heb farnu<br>Harley (SG) - un cyfeillgar a gonest sydd wrth eu bodd gyda'r cyfansoddiad felly byddaf yn hapus i weithio ar hyn gyda rheolau sefydlog a sicrhau bod y rheolau ar waith.<br><br>Kait - 2<br>Florence – 2<br>Tasha – 5<br>Harley – 10<br><br>Etholwyd Harley yn ddirprwy gadeirydd | | | |
| Polisiau sy'n dod i ben: | Diweddariadau | Nid oes Polisïau sy'n dod i ben. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Cymraeg** | Dysgodd Cynrychiolwyr UMCA eiriau Cymraeg pwysig i aelodau'r Senedd | Nanw arweiniodd y wers Gymraeg. | | | |
| Adroddiad y Swyddogion | Bydd y Swyddogion yn sôn am ar ba beth y maen nhw'n gweithio a'u blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. | Rhoddodd y Swyddogion y diweddaraf ar eu gwaith presennol. Gweler yr adroddiad yma. (i ddod yn fuan)<br><br>Cwestiynau:<br>Millie - Dim byd<br><br>Tanaka - Holodd Harley (SG) ynghylch ei gwaith ar hygyrchedd. Esboniodd Tanaka ei fod ar y cyd gyda Gwasanaethau'r Myfyrwyr a'u bod wrthi'n ei drafod.<br><br>Ffion - Holodd Spencer (SG) ynghylch Codi a Rhoddi. Esboniodd Ffion ei fod yn ymwneud â chodi a rhoddi arian. Melissa (VP) - Holodd ynghylch pwy yw New Pathways Esboniodd Ffion ei fod yn elusen gymorth drais rhywiol.<br><br>Espe - Holodd James (CYMDEITHASAU) ynghylch a fyddem yn cal gwared ar y cerflun? Esboniodd Espe fod hyn yn beth drud iawn i'w wneud.<br><br>Nanw - dim byd<br><br><br>Cymerodd y Senedd hoe o 10 munud - Bu rhaid i Gwenno adael ar yr adeg hon. | | | |
| **Blaenoriaethau'r Undeb** | Esboniodd y Cadeirydd y broses newydd. | Mae'r Swyddogion Llawn Amser yn dewis eu blaenoriaethau yn yr haf, ond nad yw hyn yn caniatáu llawer o amser i siarad gyda myfyrwyr. Wrth symud ymlaen, bydd y Swyddogion yn dewis rhai o'u blaenoriaethau yn yr haf. A chaiff y flaenoriaeth ar y cyd ei phenderfynu yn y Cyf Cyff. | | | |
| | Adborth Grŵp Trafod (Syniad | Grŵp A: Hyfforddiant ar gyfer aelodau pwyllgor - honiadau o ymosodiadau | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Blaenoriaeth Gyffredinol) | rhywiol, nid yw aelodau pwyllgor yn siŵr o beth i'w wneud ynglŷn â'r rhain.<br><br>Grŵp B: Costau byw ac aberthu yn ôl yr hyn y gellir ei fforddio - nwyddau misglwyf - bwyta neu brynu cynhyrchion eraill. Problem gyda diffyg ailgyflenwi nwyddau misglwyf.<br><br>Grŵp C: Costau byw - Mae Aber yn rhad ond nid yw'n hawdd byw yma. Hefyd, llety, ac amgylchiadau tai gwael<br><br>Grŵp D: costau byw. Marchnad dai a swyddi gwael. Mae graddau yn cael eu dibrisio. Mae ffioedd dysgu yn codi. Mae myfyrwyr yn dewis rhwng gwahanol fathau o hanfodion. Polisi Enwi a Chodi Cywilydd ar swyddi gwael yn y dref. Prin yw'r drafnidiaeth sydd ar gael a chaiff ei chanslo.<br><br>Grŵp E: cefnogaeth i gael hyd i swyddi yn y Brifysgol ac ar gyfer ecsbloetio yn y gweithle. Trafodwyd tai a llety myfyrwyr a phreifat. Pwysau arnynt i dalu am bethau eraill gan landlordiaid. Nid yw systemau gwres yn gweithio mewn llety i fyfyriwr. Asbestos yng Nghwrt Mawr yn ogystal â Phantycelyn - a ydy yno o hyd?<br><br>Rhannwyd y trafodaethau yn bedwar grŵp gyda chynrychiolwyr i siarad ar eu rhan.<br>• Hyfforddiant i Grwpiau Myfyrwyr<br>• Costau byw (trafnidiaeth, prynu hanfodion, tai, swyddi)<br>• Swyddi ac ecsbloetio<br>• Tai a llety<br><br>Ula (CA) Costau Byw: nid yw benthyciadau yn ddigon am lety | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | chwaith. Maen nhw'n gorfod gweithio ar y cyd ag astudio.<br><br>Kathleen (SG) Swyddi: fforwm gyda chyngor cyfreithiol i weld a ydyn nhw wedi torri'r gyfraith. Efallai na ddylai fod yn flaenoriaeth gan yr Undeb ond rhywbeth hir dymor. Fforwm i sgorio cyflogwyr.<br><br>Alex (CYMDEITHASAU): Tai: mae'n rhaid i'r Brifysgol wneud mwy ynglŷn â llety gan fod plâu yn afiach. Dylai fod yn lân. O ran y dref, dylid creu rhestr o asiantaethau y mae'r Undeb yn eu cefnogi. | | | |
| | Adborth Grŵp Trafod (sut y mae'n taro eu grwpiau) | • Costau trafnidiaeth - chwaraeon - costau mynd i ddigwyddiadau wedi ei gwneud hi'n wirioneddol anodd.<br>• Ni all myfyrwyr fforddio mynd i ddigwyddiadau cymdeithasol.<br>• Ddim yn gallu cael gafael ar bethau hanfodol hy nwyddau misglwyf.<br>• Costau aelodaeth a BUCS yn codi<br>• Mae disgwyl i chi brynu llawer o bethau at eich cwrs a gall gael effaith wahanol ar fyfyrwyr.<br>• Tref 3edd rataf o ran byw - mae myfyrwyr yn parhau i ffocysu ar ymaelodi â grŵp neu fwyta, angen mwy o swyddi. Ni ddylai fod yn peri poen.<br>• Mae ôl-raddedigion yn gorfod prynu llawer o lyfrau academaidd heb fawr o grantiau. Nid oes benthyciad cynhaliaeth gan fyfyrwyr uwchraddedig. | | | |
| | Blaenoriaeth yr Undeb | Pleidlais:<br>Costau Byw: 22<br>Tai: 4<br>Swyddi: 0 | | | |

| | |
|---|---|
| **Unrhyw faterion eraill** | Unrhyw faterion eraill:<br>Anogodd y Cadeirydd i gofnodi oriau gwirfoddoli.<br>Dewch i gael tynnu eich llun os nad ydych chi eisoes wedi gwneud i'w rhoi ar y wefan.<br>**Senedd Nesaf:** 02/12/2025<br>Daeth y Cyfarfod i ben: 19:57 |

SLlA=Swyddog Llawn Amser

**SG=Swyddog Gwirfoddol**

SC = Swyddog Cyfadran

**CHWARAEON = Cynrychiolydd Chwaraeon**

CYMDEITHASAU = Cynrychiolydd Cymdeithas

**UMCA = Cynrychiolydd UMCA**

PG = Cynrychiolydd Prosiect Gwirfoddol

CA = Cynrychiolydd Academaidd

**Aelod = Aelod UM heb fod yn aelod o'r Senedd**

# A ddylai Undeb Aber newid enw'r Swyddog Myfyrwyr Annibynnol i'r Swyddog AberOfalgar?

**Cyflwynwyd gan:** Kathleen Pritchard

## Crynodeb:

Mae enw'r swyddog myfyrwyr annibynnol yn rhy amwys a dylai gael ei newid i'r Swyddog AberOfalgar.

## Manylion:

Mae enw'r Swyddog Myfyrwyr Annibynnol yn rhy amwys i'r graddau fod diffyg dealltwriaeth ohono ymysg myfyrwyr, gan gynnwys y rheini sy'n perthyn i gategori myfyrwyr annibynnol. Mae AberOfalgar yn cyfeirio'n benodol at is-adran AberOfalgar a geir ar dudalen y Brifysgol. Os na fydd myfyrwyr yn siŵr o ystyr AberOfalgar mae modd iddynt chwilio amdano'n uniongyrchol a chael gwybod am beth y mae'n ei drin a pha gefnogaeth y gall y Brifysgol a'r Undeb ei chynnig.

# Proses Cymeradwyo ar gyfer Etholiad Llywydd UMCA

**Cyflwynwyd gan:** Nanw Maelor Hampson

## Crynodeb:

Sefydlu proses cymeradwyo ar gyfer ymgeiswyr Llywydd UMCA er mwyn diogelu llais aelodau UMCA.

## Manylion:

Un o'm blaenoriaethau i fel swyddog yw sefydlu cyfansoddiad ar gyfer Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA), yn ogystal â llunio is-ddeddf ar gyfer Undeb Aber ar UMCA a'i weithredoedd o fewn yr Undeb.

Holl ddiben UMCA yw bod yn lais dros myfyrwyr Cymraeg, ond yn unol â Deddf Elusennau 2011, nid myfyrwyr Cymraeg yn unig a all bleidleisio ar gyfer eu Llywydd. Er ein bod ni'n llwyr cydnabod y cyfraith hwnnw, mae tyndra cymhleth yn y ffaith nad aelodau UMCA yn unig sy'n ethol rôl eu Llywydd a hynny mewn etholaeth lle mae myfyrwyr Cymraeg yn leiafrif.

Cynigwn felly bod proses yn cael sefydlu sy'n gwarchod lleisiau aelodau UMCA wrth ethol eu Llywydd. Bydd y broses yn cynnig cyfle i ymgeiswyr gyfarfod gyda'r Pwyllgor Craidd (Llywydd, Is-lywydd, Cadeirydd, Ysgrifennydd) mewn proses cymeradwyo.

Nid diben y broses hwn fydd eithrio unrhyw un rhag sefyll am y rôl ac os yn yr achos prin y bydd ymgeisydd yn cael ei wrthod, bydd galw ar y Pwyllgor Craidd i roi cyfiawnhad rhesymegol ar y penderfyniad hwnnw. Yn hytrach, y bwriad yw gosod fframwaith sy'n sicrhau bod gwerthoedd ac anghenion UMCA yn cael eu cynrychioli gan ymgeiswyr.